

RHEOLI ARFAU TAFLEN ADNODDAU 2

Astudiaeth Achos 1

ACHOS MATEO LOPÉZ

BETH DDIGWYDDODD

Mae Mateo Lopéz yn aelod o undeb llafur yn Guatemala. Roedd ef a'i chwaer yng nghyfraith yn cerdded i ddal y bws i fynd i gyfarfod yr undeb llafur ym mis Hydref 2010. Gwelsant feic modur â dau ddyn arno yn dod tuag atynt yn gyflym iawn.

Roedd y teithiwr yn cario gwn a dechreuodd saethu. Syrthiodd Lopéz i'r llawr a chafodd ei saethu dro ar ôl tro. Rhedodd yr ymosodwyr i ffwrdd.

Ar ôl cael ei ryddhau o'r ysbyty aeth Lopéz adref, ond mae mewn perygl o ymosodiadau pellach. Ni fu unrhyw ddatblygiadau o ran yr ymchwiliadau i'r achos ac ni chafodd neb ei arestio.

CEFNDIR

Wythnos cyn iddo gael ei saethu, roedd Lopéz wedi rhoi araith mewn digwyddiad cyhoeddus i gofio am ladd gweithredwr, Víctor Gálvez.

Yn ôl adroddiadau swyddogol yr undeb llafur, cafodd 16 o undebwyr llafur eu lladd yn Guatemala yn 2009.

Y FFEITHIAU

- Bu Guatemala'n orlawn o ran arfau tân ers blynnyddoedd. Yn 2009 pasiodd Cyngres Guatemala gyfraith gynhwysfawr ar reoli arfau. Cafodd hyn ond ychydig o effaith hyd yn hyn.
- Mae gan Guatemala lefel uchel iawn o ddynladdiad bwriadol – 45.2 o ddynladdiadau fesul 100,000 o bobl, o'i gymharu â chyfartaledd y byd, sef 7.6.
- Yn ôl amcangyfrif, mae rhwng 800,000 a 1.5 miliwn o arfau tân anghyfreithlon yn cylchredeg.
- Mae mewnfario arfau i Guatemala yn anghymesur â maint ei phoblogaeth a'i lluoedd arfog.
- O 2000-2009, mewnfariodd Guatemala werth \$26.6 miliwn o bistolau a llawdrylliau **milwrol**.
- Yn ystod yr un cyfnod mewnfariodd Guatemala werth \$13.5 miliwn o arfau tân **sifiliaid**.

RHESTR TERMAU

Undeb llafur: sefydliad o weithwyr sydd wedi dod ynghyd i gyflawni nodau cyffredin fel amgylchiadau gweithio gwell

Gweithredwr: rhywun sy'n gweithio i gefnogi achos penodol

Dynladdiad bwriadol: pan fydd rhywun yn lladd rhywun arall yn fwriadol

Sifiliaid: rhywun nad yw yn y lluoedd milwrol

GNI y pen: incwm cyfartalog y pen



GWERINIAETH GUATEMALA

Poblogaeth: 14.3 miliwn

Prifddinas: Dinas Guatemala

Prif ieithoedd: Sbaeneg, dros 20 o ieithoedd brodorol

Prif grefydd: Cristnogaeth, credoau brodorol y Maya

Disgwyliad oes:


68 mlynedd (dynion),

75 mlynedd (menywod)

Prif allforion: Coffi, siwgr, bananas, ffrwythau a llysiau, cig, petrolewm, cardamon

GNI y pen: UD \$2,620

(Banc y Byd, 2009)



RHEOLI ARFAU TAFLEN ADNODDAU 2

Astudiaeth Achos 2

LLADDFA MAGUINDANAO

BETH DDIGWYDDODD

Roedd gwleidydd yn Ynysoedd y Philippines yn paratoi i sefyll yn yr etholiadau lleol. Aeth aelodau o'i deulu, rhai o'i gefnogwyr a 37 o newyddiadurwyr mewn saith cerbyd i gofrestru gyda swyddfa'r etholiad.

Ar y ffordd i'r brifddinas daleithiol, cafodd y cerbydau eu hamgylchynu gan 100 o ddynion wedi'u harfogi'n helaeth. Aethant â'r cerbydau a'r bobl ynddynt i fryn cyfagos. Cafodd o leiaf 63 o'r bobl eu saethu a chafodd eu cyrff eu taflu i feddau torfol.

Dywedodd tystion fod gwrthwynebwyr gwleidyddol yn saethu i mewn i'r cerbydau.

Y lladdfa hon oedd un o'r rhai mwyaf marwol yn hanes diweddar Ynysoedd y Philippines a dyma oedd ymosodiad unigol mwyaf erioed y byd ar newyddiadurwyr. Cafodd ei gondemnio'n eang yn y wlad a thramor. Datganodd y llywodraeth fod sefyllfa argyfyngus yn yr ardal.

CEFNDIR

Mae gan Ynysoedd y Philippines hanes hir o gamdriniaethau hawliau dynol. Mae byddinaw preifat wedi lledu dros y wlad yn ystod y blynyddoedd diweddar.

Y FFEITHIAU

- Rhwng 2005 a 2009 mewnfuriodd Ynysoedd y Philippines arfau gwyr traed ac arfau anfilwrol gwerth \$109.5 miliwn o 29 o wledydd.
- Yn ystod yr un cyfnod, mewnfuriodd Ynysoedd y Philippines werth \$30.9 miliwn o arfau milwrol yn ogystal â llawdrylliau a phistolau.
- Yr Unol Daleithiau yw'r darparwr mwyaf o arfau milwrol ac anfilwrol a ffrwydrion rhyfel i Ynysoedd y Philippines.

RHESTR TERMAU

Sefyllfa argyfyngus: pan fydd llywodraeth yn creu rheolau arbennig er mwyn delio â sefyllfa hynod o beryglus neu anodd, sy'n aml yn cyfyngu ar ryddid pobl

Arfau gwyr traed: arfau mae milwyr yn eu defnyddio

Arfau anfilwrol: arfau sy'n cael eu defnyddio gan bobl nad ydynt yn filwyr

GNI y pen: incwm cyfartalog y pen



YNYSOEDD Y PHILIPPINES

Enw llawn: Gweriniaeth y Philippines

Poblogaeth: 93.6 miliwn (UD, 2010)

Prifddinas: Manila

Prif ieithoedd: Filipino, Saesneg (y ddwy yn swyddogol)


Prif grefydd: Cristnogaeth

Disgwyliad oes:

71 o flynyddoedd (dynion),
75 o flynyddoedd (menywod)

Prif allforion: Peiriannau trydanol, dillad, bwyd ac anifeiliaid byw, cemegau, cynhyrchion pren

GNI y pen: UD \$1,790 (Banc y Byd, 2009)



RHEOLI ARFAU TAFLEN ADNODDAU 2

Astudiaeth Achos 3

PROTESTWYR GWLEIDYDDOL LIBYA

BETH DDIGWYDDODD

Ym mis Chwefror 2011 cynhaliodd Libyaidd yn Benghazi wrthdystiad heddychlon i brotestio am arestio dau weithredwr. Ceisiodd yr heddlu atal y gwrthdystiadau trwy rym a chafodd llawer o brotestwyr a phobl gyfagos eu lladd. Wedyn aeth y protestiadau yn dreisgar. Daethpwyd â milwyr i mewn. Gwnaethant saethu ffrwydron rhyfel byw i mewn i'r torfeydd heb wneud unrhyw ymdrech i osgoi brifo pobl.

Roedd llawer o'r cyhoedd yn grac iawn oherwydd hynny a lledodd protestiadau ar draws y wlad a oedd yn arwain at wrthdaro arfog eang.

Roedd y cerbydau a gafodd eu defnyddio gan filwyr a'r heddlu i gyfyngu ar y protestiadau yn edrych yn union debyg i'r cerbydau rheoli torfeydd a wnaed gan gwmni Prydeinig. Roedd y cwmni hwn wedi bod mewn ffeiriau arfau yn Libya yn ceisio gwerthu eu cerbydau i swyddogion y llywodraeth.

CEFNDIR

Nid yw cwmnïau yn y DU sy'n gwneud arfau yn gallu eu gwerthu i wledydd eraill heblaw eu bod yn cael trwydded i allforio arfau gan lywodraeth y DU. Ni ddylai'r llywodraeth roi trwydded os

bydd risg y gallai'r arfau gael eu defnyddio i gyflawni camdriniaethau hawliau dynol. Yn 2008 dywedodd pwyllgor o Aelodau Seneddol fod ganddynt 'amheuon' difrifol a phryderon ynglŷn â'r DU yn caniatáu i gerbydau arfog a chanonau dŵr gael eu hallforio i Libya. Roedd risg y gallent gael eu defnyddio ar gyfer gormes fewnol.

Y FFEITHIAU*

- Y DU yw un o nifer o wledydd sy'n cyflenwi arfau i Libya.
- Yn 2010, mae'r DU wedi caniatáu trwyddedau gwerth £452,762 ar gyfer allforio cerbydau arfog i Libya.
- Hefyd, yn 2010 cafodd trwyddedau gwerth £75,015 eu caniatáu ar gyfer allforio ffrwydron rhyfel i Libya.

RHESTR TERMAU

Benghazi: Ail ddinas fwyaf Libya

Trwydded i allforio arfau: caniatâd gan lywodraeth i arfau a ffrwydron rhyfel gael eu gwerthu i wlad arall.

Ffair arfau: lle mae gwneuthurwyr yn dangos yr arfau maent yn eu gwneud i gynrychiolwyr milwrol a swyddogion y llywodraeth, a allai eisiau eu prynu.

Gormes fewnol: pan fydd llywodraeth yn defnyddio grym i atal pobl rhag mynegi eu barnau'n heddychlon

GNI y pen: incwm cyfartalog y pen



LIBYA

Poblogaeth: 6.5 miliwn

Prifddinas: Tripoli

Prif iaith: Arabeg

Prif grefydd: Islam

Disgwyliad oes:

73 o flynyddoedd (dynion),

78 o flynyddoedd (menywod)

Prif allforion: Olew crai, cynhyrchion petrolewm, nwy naturiol

GNI y pen: US \$12,020
(Banc y Byd, 2009)

*Cyfeiriad – Adroddiad Amnest Rhyngwladol 2011: *Arms transfers to the Middle East and North Africa: Lessons for an effective ATT*